



EIN GWELEDIGAETH

Mae marchnadoedd yn rhan werthfawr o'n cymunedau lleol ac yn gwneud cyfraniad hollbwsig at brofiad siopa cwsmeriaid.

Mae gwasanaethau safonau masnach lleol, gweithredwyr marchnad, grwpiau diwydiannol a pherchnogion hawlfraint a nodau masnach yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau nad oes nwyddau ffug ac anghyfreithlon mewn marchnadoedd fel y gall cwsmeriaid siopa, ac y gall masnachwyr cyfreithlon werthu yn ddiogel ac yn hyderus.

Gellir arddangos logo Real deal mewn lleoliadau ble mae gweithredwr marchnad yn cadw at delerau'r siarter hon ac yn cytuno gyda'u gwasanaeth safonau masnach lleol.

Bydd trefniadau lleol yn tanategu agweddau ymarferol a gweithredol y siarter hon. a nogir gweithredwyr marchnad a safonau masnach i ystyried cyflwyno cod ymarfer sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol ac yn dangos cefnogaeth a dealltwriaeth. Cytunir ar y cod ymarfer gan y gweithredwyr marchnad a safonau masnach ar lefel lleol a bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu fel bo'n briodol.

Ymrwymiad y Gweithredwr Marchnad

- Gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaeth safonau masnach yr awdurdod lleol i atal gwerthiant nwyddau ffug ac anghyfreithlon yn y farchnad.
- Bod yn ymwybodol o bwy sy'n masnachu yn y farchnad.
- Sicrhau ymrwymiad i fasnachu teg a gwneud yn siŋr bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn.

Ymrwymiad Gwasanaeth Safonau Masnach yr Awdurdod Lleol

- Gweithio mewn partneriaeth gyda gweithredwyr marchnad i sicrhau nad oes nwyddau ffug ac anghyfreithlon yn eu marchnad.
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth mewn perthynas â gwerthu nwyddau anghyfreithlon.
- Gweithio gyda chynrychiolwyr y diwydiant a chynrychiolwyr nodau masnach i adnabod nwyddau anghyfreithlon.
- Monitro'r farchnad a rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu, safonau masnach neu asiantaethau gorfodaeth eraill ynghyd â pherchnogion diwydiant a hawliau.

Ymrwymiad y Cynrychiolwyr Diwydiant a Chynrychiolwyr Nodau Masnach

- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i safonau masnach a gweithredwyr masnach ar sut i adnabod nwyddau anghyfreithlon.
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gais.
- Monitro'r farchnad a rhoi gwybod i bob parti am unrhyw nwyddau anghyfreithlon a ganfyddir.

Llofnodwyd ar ran safonau masnach

Dyddiad

Llofnod ar ran trefnydd y farchnad Gweithredwr Marchnad

Dyddiad

Noddwyr eraill



Supported by



Partneriaid ymgyrch

